Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd Cenedlaethol

Clwydian Range
and Dee Valley
National Landscape

# Rhaglen Gwirfoddolwyr Dyffryn Dyfrdwy

# Hydref – Rhagfyr

## Crynodeb o'r Digwyddiadau

### Gardd Gymunedol Corwen – y wybodaeth ddiweddaraf

Gyda'r haf yn tynnu at ei derfyn, hoffem ddiolch i'r holl wirfoddolwyr am eu cymorth yn yr ardd gymunedol, ac mae digonedd i'w wneud o hyd dros fisoedd y gaeaf! Cynaeafwyd llawer o ffrwythau a llysiau dros yr wythnosau diwethaf, a chafwyd rwdins anferth, mefus a ffa dringo hirion. Mae'r planhigion tomato'n dod yn eu blaenau'n dda hefyd, a dylent fod yn barod yn fuan! Ar wahân i gynaeafu, mae ein gwirfoddolwyr wedi bod yn brysur yn chwynnu a dyfrhau'r blychau plannu, ac wedi eu gwobrwyo â chynnyrch ffres.

Mae tîm Natur er Budd Iechyd wedi bod yn cynnal llawer o ddigwyddiadau yn yr ardd, gan gynnwys sesiwn chwilota a gwledda, a gwnaed digonedd o fwyd da gan ddefnyddio cynnyrch yr ardd. Bydd ein sesiynau garddio ysgafn yn parhau dros fisoedd y gaeaf, felly dewch draw i gael sgwrs, paned a dysgu ambell beth am arddio (neu ddysgu un neu ddau o bethau i ni!).





## Pladuro a Chodi Waliau Sych

Rydym wedi gallu cynnal sesiynau pladuro a chodi waliau sych gyda chymorth The Little Learning Company. Rhoddodd y cyfle i wirfoddolwyr ddysgu sgiliau defnyddiol newydd, gan hefyd gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

Cynhaliwyd y digwyddiadau pladuro ar Ddôl Llangar a Pherllan Gymunedol Corwen gyda'n hyfforddwr Phil, am ddau ddiwrnod ar y ddau safle. Roedd y cwrs yn cynnig cyflwyniad i bladuro, a oedd yn addysgu'r gwirfoddolwyr sut i baratoi eu pladur, addysgu dulliau hogi a thechneg sylfaenol pladuro. Diolch yn fawr i'r gwirfoddolwyr am gynorthwyo i dorri a chasglu yn y dolydd blodau gwylltion, gan helpu i sicrhau y bydd y tyfiant yn tyfu eto'n fwy amrywiol.

Mae ein cyrsiau codi waliau sych wedi galluogi gwirfoddolwyr i fynd i'r afael â'r agweddau sylfaenol a defnyddio'u sgiliau i ailadeiladu hen waliau yng Nghoed Pen y Pigyn ac ar Fryngaer Oes yr Haearn Caer Drewyn. Roedd y ddwy wal wedi dirywio'n sylweddol dros lawer o flynyddoedd. Mae'r waliau bellach wedi eu hadfer ac mae eu cyflwr lawer gwell erbyn hyn.






## Clirio Ffromlys Chwarennog

Mae ein gwirfoddolwyr wedi bod yn cymryd rhan yn y gwaith o glirio Ffromlys Chwarennog, sy'n rhywogaeth estron oresgynnol, a gall ddod yn broblem gan ei fod yn lledaenu'n hawdd rhwng glannau afonydd, gerddi, ac ardaloedd gwastraff. Bydd y planhigyn hwn yn cael y gorau ar rywogaethau eraill gan ei fod yn gallu goddef lefelau isel o olau.

Mae clirio Ffromlys Chwarennog ('bashing') yn broses o ddadwreiddio'r planhigyn a'i dorri mewn sawl lle – gorchwyl eithaf boddhaol! Cynhaliwyd sesiynau ar gyfer gwirfoddolwyr dros yr haf yn Nhŷ Mawr a ger Hen Reilffordd Llangollen. Diolch i bawb a ddaeth!



# Rhaglen Wirfoddolwyr Hydref – Rhagfyr 2024

## Hydref

**Bob prynhawn Mercher 1yp – 3yp**

**Sesiwn Arddio Ysgafn**

Ymunwch â'r Ceidwaid ar gyfer ychydig o arddio hamddenol, a sgwrs a phaned bob dydd Mercher yng Ngardd Gymunedol Corwen.

Cyfarfod yng Ngardd Gymunedol Corwen, Corwen

**Cod Post: LL21 0DN**

**What3Words:///support.files.scratches**

**Dydd Mawrth, 1af Hydref, 10yb – 2yp**

**Adfer y Pwll Dŵr**

Dewch i helpu'r Ceidwaid i adfer pwll dŵr bychan ar droed Bryngaer Oes yr Haearn Caer Drewyn. Mae pyllau a chynefinoedd gwlyptir yn bwysig iawn ar gyfer ystod eang o rywogaethau.

Cyfarfod yng Nghanolfan Hamdden Huw Jones, Corwen

**Cod Post: LL21 9RW**

**What3Words:///resources.tailwind.showed**

**Dydd Iau, 10fed Hydref, 10yb – 3yp**

**Rheoli Coetir yng Nghoed Pen y Pigyn**

Dewch draw i helpu'r Ceidwaid dynnu Cegid y Gorllewin (*Tsuga heterophylla*) yng Nghoed Pen y Pigyn i helpu i wella'r coetir llydanddail.

Cyfarfod ym maes parcio Lôn Las, Corwen

**Cod Post: LL21 0DN**

**What3Words:///support.files.scratches**

**Dydd Llun, 14eg Hydref, 1yp – 3yp**

**Rheoli Rhostir**

Ymunwch â'r Ceidwaid a'r Swyddog Maes Rhostiroedd ar gyfer ein sesiwn Rheoli Rhostir misol ar ddydd Llun. Bydd y sesiwn hon yn cynnwys tynnu coed oddi ar y rhostir.

Cyfarfod yng nghilfan Bwlch y Groes, Glyndyfrdwy

**Cyfeirnod Grid: SJ 14942 45044**

**What3Words:///doped.slack.shortage**

**Dydd Iau, 24ain Hydref, 10yb – 3yp**

**Rheoli Cynefinoedd ac Ymwybyddiaeth Ofalgar ar Ddinas Brân**

Dewch i ymuno â'r Tîm Ceidwaid yn Ninas Brân i wneud ychydig o waith rheoli cynefinoedd ar y safle. Y dasg sydd ar y gweill yw cael gwared ag eithin. O 1yp ymlaen, bydd ein Swyddog Natur er budd Iechyd hefyd yn cynnal sesiwn ymwybyddiaeth ofalgar.

Cyfarfod ar hyd Llwybr Panorama

**Cod Post: LL20 8EG**

**What3Words:///bets.pram.wasps**

**Dydd Iau, 31ain Hydref, 10yb – 3yp**

**Bondocio a Chreu Ysgub**

Dewch i helpu a rhoi cynnig ar y dechneg draddodiadol hon o reoli coetiroedd, sy'n hybu ac yn gwella'r fioamrywiaeth yn y coetir. Byddwn hefyd yn defnyddio'r deunyddiau a gesglir a chreu ysgub.

Cyfarfod ym maes parcio Lôn Las, Corwen

**Cod Post: LL21 0DN**

**What3Words:///support.files.scratches**

## Tachwedd

**Dydd Llun, 11eg Tachwedd, 1yp – 3yb**

**Rheoli Rhostir**

Ymunwch â ni eto am ein sesiwn Rheoli Rhostir misol ar ddydd Llun.

Cyfarfod yng nghilfan Bwlch y Groes, Glyndyfrdwy

**Cyfeirnod Grid: SJ 14942 45044**

**What3Words:///doped.slack.shortage**

**Dydd Mercher, 20fed Tachwedd, 10yb – 3yp**

**Plannu Coed**

Cynorthwywch y Tîm Ceidwaid i blannu oed ar Gaer Drewyn. Bydd plannu coed ar y safle o gymorth wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Cyfarfod yng Nghanolfan Hamdden Huw Jones, Corwen

**Cod Post: LL21 9RW**

**What3Words:///resources.tailwind.showed**

**Dydd Iau, 28ain Tachwedd, 1yp – 3yp**

**Plannu Coed**

Ymunwch â ni eto i'n helpu i blannu coed ger Hen Reilffordd Llangollen.

Cyfarfod yng Ngwarchodfa Natur Wenffrwd, Llangollen

**Cod Post: LL20 7UH**

**What3Words:///incensed.labs.occupy**

## Rhagfyr

**Dydd Mawrth, 3ydd Rhagfyr, 10yb – 3yp**

**Rheoli Cynefinoedd ar Gaer Drewyn**

Dewch i ymuno â'r Tîm Ceidwaid ar Gaer Drewyn i wneud ychydig o waith rheoli cynefinoedd ar y safle. Y dasg sydd ar y gweill yw cael gwared ag eithin.

Cyfarfod yng Nghanolfan Hamdden Huw Jones, Corwen

**Cod Post: LL21 9RW**

**What3Words:///resources.tailwind.showed**

**Dydd Iau, 12fed Tachwedd, 10yb – 3yp**

**Rheoli Coetir yng Nghoed Pen y Pigyn**

Wrth barhau â'r gwaith o'r sesiynau blaenorol, byddwn yn ceisio cael gwared â mwy o Gegid y Gorllewin (*Tsuga heterophylla*) yng Nghoed Pen y Pigyn i helpu i wella'r coetir llydanddail.

Cyfarfod ym maes parcio Lôn Las, Corwen

**Cod Post: LL21 0DN**

**What3Words:///support.files.scratches**

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd Cenedlaethol

Clwydian Range and Dee Valley
National Landscape

Nid yw’r digwyddiadau hyn yn addas ar gyfer plant dan 16 oed. Gadewch i ni wybod ymlaen llaw os ydych chi’n bwriadu dod. Does dim angen profiad arnoch chi. I gael rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau gwirfoddoli, cysylltwch â ni.

Dwynwen Williams – Ceidwad Cefn Gwlad Cynorthwyol
E-bost: dwynwen.williams@sirddinbych.gov.uk
Rhif ffôn: 07467 681229

Morgan Jones – Ceidwad Cefn Gwlad
E-bost: morgan.vaughanjones@sirddinbych.gov.uk
Rhif ffôn: 07342 062889